Credyd Cynhwysol
Prosbectws Datganiad o Ddiddordeb

# Peilot Partner y Gellir Ymddiried Ynddo

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 3

Cefndir ........ 3

Nodau ac amcanion ........ 3

Meini cymhwyster a dethol ar gyfer cynhwysiad yn y peilotau ..**Error! Bookmark not defined.**

Cynnwys a ffocws y treialon ........ 4

Cytundeb Lefel Gwasanaeth ........ 5

Camau Nesaf ........ 5

Atodiad A – Meini Prawf Dethol – Cwestiynau Arolwg Datganiad o Ddiddordeb........6

## Cyflwyniad

1. Mae’r ddogfen hon ar eich cyfer chi os:
    - Rydych yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), Awdurdod Lleol (ALl) sy’n berchen ar stoc neu Sefydliad Rheolaeth Hyd Braich (ALMO) mewn ardal lle mae Credyd Cynhwysol (UC) yn fyw ar hyn o bryd.
    - Gall eich sefydliad ymrwymo i gefnogi peilot am 6-9 mis heb unrhyw gyllid o’r Adran Gwaith a Phensiynau
    - Mae gan eich sefydliad cyfleuster e-bost diogel, fel cyfeiriadau e-bost sy'n gorffen gyda **GSI.GOV.UK**, **GCSX.GOV.UK**, **GSX.GOV.UK**, **CJX.GOV.UK, CJSM.NET**, **GSE.GOV.UK** or **PNN.GOV.UK**.
    - Rydych yn barod i ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA)

## Cefndir

2. Mae'r Peilot Partner Credyd Cynhwysol y Gellir Ymddiried Ynddo yn adeiladu ar ein hymrwymiad i weithio gyda landlordiaid i helpu hawlwyr sydd angen cymorth i reoli eu taliadau uniongyrchol o rent fel rhan o gais Credyd Cynhwysol. Mae'r cynllun peilot yn cynnyrch o gydweithio rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Sector Rhent Cymdeithasol i ddatblygu dull sy'n sicrhau bod tenantiaid sydd angen cymorth yn ei gael.

3. Ym mis Mawrth 2015 cynhaliodd yr Adran Gwaith a Phensiynau prawf cysyniad am 8 wythnos gyda chwe landlord cymdeithasol yn y Gogledd Orllewin. Sefydlwyd y prawf i weld a yw'r cysyniad Partner y Gellir Ymddiried Ynddo wedi creu gwell cyfleoedd ar gyfer gweithio cydgysylltiedig yn arwain at ganlyniad gwell i'r hawlydd. O ganlyniad y prawf mae’r Adran Gwaith a Phensiynau bellach wedi derbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i gynllun peilot mwy o faint yn ymestyn allan o'r Gogledd Orllewin i gynnwys ardaloedd eraill yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

4. Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y cynllun peilot a sut y gall landlordiaid cymdeithasol fynegi diddordeb mewn cymryd rhan.

## Nodau ac amcanion

5. Nod y Peilot Partner Credyd Cynhwysol y Gellir Ymddiried Ynddo yw deall ac asesu y broses lle bydd landlordiaid cymdeithasol yn adnabod tenantiaid sy'n agored i niwed a allai ei chael hi’n anodd ymdopi â thalu rhent yn uniongyrchol iddynt, a gwneud argymhellion priodol ar gyfer taliad uniongyrchol o gostau tai a elwir yn Trefniant Talu Amgen  (APA). Byddwn yn gwneud hyn drwy brofi os

    - yw’r broses  APA o’r dechrau i'r diwedd yn rhoi profiad da i hawlwyr a staff, ac os yw’n  addas ar gyfer gweithredu cenedlaethol
    - oes unrhyw fylchau, er enghraifft, wrth ddarparu gwasanaethau cymorth yn lleol
    - gellir cydlynu cymorth  yn hawdd rhwng Partneriaid Y Gellir Ymddiried Ynddynt a’r Adran Gwaith a Phensiynau

- gall Partneriaid Y Gellir Yymddiried Ynddynt  ymgymryd ag adolygiadau APA
- yw’r broses yn fforddiadwy o ran adnodd ac amser i landlordiaid a’r Adran Gwaith a Phensiynau
- bydd unrhyw ddeunydd dysgu a datblygu yn diwallu anghenion Partneriaid y Gellir Ymddiried Ynddynt

## Meini cymhwyster a dethol ar gyfer cynhwysiad yn y peilotau

6. Drwy defnyddio offeryn arolwg, bydd  yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dewis tua 20 o landlordiaid cymdeithasol i lunio sampl gynrychiadol o gymdeithasau tai, ALlau sy’n berchen ar stoc ac ALMOs ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

7. Bydd y cwestiynau yn yr arolwg yn Atodiad A yn ystyried daearyddiaeth (h.y.lleoliad, trefol/gwledig) a demograffeg poblogaeth tenantiaid y sefydliadau i wneud y gorau o ddysgu o'r peilot.

8. Dylai sefydliadau sydd â diddordeb gyflwyno eu EOI wedi'i gwblhau drwy'r arolwg a gellir ei gweld yn http://survey.dwp.gov.uk//index.php?sid=52899&lang=en . Rhaid i Ddatganiadau o Ddiddordeb gael eu cyflwyno heb fod yn hwyrach na canol dydd ar ddydd Gwener, 13eg Tachwedd 2015. Ni ystyrir ffurflenni a dderbynnir drwy unrhyw ddull arall

9. Gwneir penderfyniadau ar y safleoedd peilot terfynol ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr arolwg. Disgwylir i ni hysbysu’r penderfyniadau terfynol yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun, 7fed Rhagfyr, 2015 drwy e-bost.

10. Rydym yn disgwyl i’r Datganiad o Ddiddordeb (EOI) hwn gael ei gordanysgrifio ac mewn achos bod ymgeiswyr wedi cyflawni'r meini prawf yn gydradd, er mwyn sicrhau didueddrwydd, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau  yn defnyddio system cynhyrchu dewisydd ar hap ar gyfer y dethol terfynol

11. Bydd y sefydliadau sydd wedi cael eu dewis bellach yn dechrau eu gweithgarwch paratoi ochr yn ochr â'r noddwyr peilot yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rhaid i sefydliadau fod yn gallu ymrwymo i ysgogi eu peilot yn gyflym - mae hyn yn un o'r meini prawf asesu yr EOI - erbyn diwedd mis Ionawr 2016 fan bellaf.

## Cynnwys a ffocws y treialon

12. Rydym yn anelu at ddangos sut y gall gweithio ar y cyd cefnogi pobl sy’n agored i niwed roi profiad gwell a mwy cydlynol iddynt, a gall helpu i wella eu gwydnwch a chyfrifoldeb ariannol. Rydym yn awyddus i brofi mewnbynnau a fydd yn ein helpu i gyflawni hyn, yn cynnwys:

    - dyluniad y broses a'r potensial ar gyfer gweithredu cenedlaethol
    - partneriaeth, rhannu data, cymorth ac adolygiadau - gan gynnwys prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

13. Rhagwelwn y bydd sefydliadau sy'n cymryd rhan yn defnyddio'u gwybodaeth leol i adnabod eu hawlwyr sydd angen Trefniant Talu Amgen (APA) a chyfeirio'r

achosion at y Ganolfan Gwasanaeth Credyd Cynhwysol. Byddai hefyd disgwyl iddynt nodi unrhyw anghenion cymorth a ble y gallant, cynnig y cymorth hwnnw, neu gyfeirio at Gymorth Cyllidebu Personol trwy'r Cytundebau Partneriaeth Ardal Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau.

14. Unwaith y bydd APA wedi cael ei argymell, y disgwyliad yw y byddai'r sefydliad peilot yn cadw hyn o dan adolygiad a rhoi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau pan na fydd angen APA mwyach. Byddai hyn yn ganlyniad o gymorth effeithiol os yw'r hawlydd yn gallu talu eu rhent eu hunain - un o brif amcanion yr ymarfer.

## Cytundeb Lefel Gwasanaeth

15. Bydd gofyn i'r sefydliadau llwyddiannus ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu o reidrwydd, i'r canlynol:

- yn ymrwymedig i gydweithredu'n llawn â'r gwerthusiad fel amod o gael ei derbyn.
- cytuno ar bwyntiau gwirio wythnosol ar y cychwyn i hysbysu/amlygu dysgu cynnar.
- darparu, fel isafswm, adroddiadau MI misol gyda phwyntiau adolygu llai manwl.
- ymgymryd â'r dysgu a datblygu priodol i gyflawni'r rôl Partner y Gellir Ymddiried Ynddo yn effeithiol.
- Bydd sefydliadau Peilot yn cael eu cefnogi gan Reolwr Perthynas Partner y Gellir Ymddiried Ynddo

## Camau nesaf

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Peilot Partner Gellir Ymddiried Ynddo nad ydynt wedi'u hateb gan y pecyn hwn, cysylltwch â'r tîm DWP Social Landlord Preparation <SOCIALLANDLORD.PREPARATION@YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU.GSI.GOV.UK>.

**Atodiad A – Meini Prawf Dethol - Cwestiynau Arolwg Datganiad o Ddiddordeb**

Bydd atebion a roddwyd i'r cwestiynau isod ar gael yn http://survey.dwp.gov.uk//index.php?sid=52899&lang=en ac fe'i defnyddir i gyflenwi cynrhychiolaeth o'r sampl yn seiliedig ar ddaearyddiaeth (e.e. lleoliad, trefol/gwledig) a demograffeg poblogaeth tenantiad y sefydliadau.

Bydd system cynhyrchu detholydd yn cael ei gymhwyso i sicrhau diduedd rwydd lle mae nifer o sefydliadau yn bodloni'r meini prawf.

| Meini Prawf |
|---|
| **Eich sefydliad** |
| Enw'r sefydliad |
| Cyfeiriad y sefydliad |
| Enw cyswllt<br>Eu cyfeiriad e-bost |
| Math o sefydliad<br>RSL/Cymdeithas tai *neu* ALMO neu ALlau sy'n berchen ar stoc |
| Faint o eiddo anghenion cyffredinol rydych chi'n eu berchen neu'n eu rheoli? |
| A ddisgrifir eich sefydliad orau fel "canoledig" neu "lleoledig"?<br>(un brif swyddfa neu gynrychiolaeth leol ar yr ystadau) |
| A oes gennych gefnogaeth lefel Cyfarwyddwr ac aelod etholedig i gymryd rhan yn y peilot hwn? |
| Oes gan eich sefydliad cyfleusterau e-bost diogel fel cyfrif GSI, GSX neu CJX? |
| Ni fydd unrhyw gyllid adrannol ar gael ar gyfer y cynllun peilot hwn. A fydd eich sefydliad yn gallu cymryd rhan yn y peilot hwn heb ariannu allanol? |
| |
| **Lleoliad eich eiddo** |
| Faint o awdurdodau lleol y mae eich sefydliad yn berchen neu'n rheoli eiddo ynddynt? |
| Faint o eiddo ydych chi'n berchen neu'n rheoli yn yr ardaloedd canlynol o Gymru, Lloegr a'r Alban?<br><br>**Lloegr**<br>Gogledd Ddwyrain<br>Swydd Efrog a Humberside<br>Gogledd Orllewin<br>Dwyrain Canolbarth Lloegr<br>Gorllewin Canolbarth Lloegr<br>Dwyrain Lloegr<br>Llundain<br>De Ddwyrain<br>De-orllewin<br><br>**Yr Alban**<br>Dwyrain a De Ddwyrain yr Alban<br>Gorllewin yr Alban<br>Glasgow a Lanarkshire<br>Dwyrain Swydd Dunbarton a Gogledd yr Alban |

| |
|---|
| **Cymru**<br>Gogledd Orllewin<br>Gogledd Ddwyrain<br>Y Canolbarth<br>De-orllewin<br>De Ddwyrain |
| Pa ganran o'ch eiddo sydd wedi'u lleoli yn y lleoliadau canlynol:<br>(Am arweiniad pellach am y dosbarthiadau hyn, ewch i https://www.gov.uk/government/collections/rural-urban-definition)<br>Gwledig (trefi a phentrefi gyda <10,000 o drigolion) neu Drefol (dinasoedd a threfi) neu gytrefi bach a mawr. Rhowch canrannau |
| Faint o'ch tenantiaid sy'n cael Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd, yn ôl eich gwybodaeth? *(rhif llwyr)*<br>Dywedwch wrthym am ganran o'ch tenantiaid oedran gweithio sy'n cael Credyd Cynhwysol<br>(*Rhowch ganrannau*) |
| Pa ganran o'ch eiddo sydd mewn ardal Credyd Cynhwysol presennol?<br>Pa ganran o'ch tenantiaid sydd o oedran gweithio (rhwng 18 a 64 oed)yn yr ardaloedd hyn? |